

## TUDALEN 18

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy gyfrwng fideo-gynadledda Zoom ar **12 Rhagfyr 2022** am 6.30 pm.

**PRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gwynant Roberts; Cyng. Elin Walker Jones (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada , Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Jac Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Gareth Parry; Cyng Shane Parsons; Cyng. Meic Pattison, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr y Ddinas), Gwynfor Owen (Cyfieithydd) Sioned Jones (Cofnodion).

**75/ 22 YMDDIHEURIADAU :** Cyng Janet Abas; Cyng. Nigel Pickavance , Cyng. Eirian Williams Roberts.

### **76/22 CYFETHOL CYNGHORYDD NEWYDD**

Cyhoeddodd Cyfarwyddwr y Ddinas fod Mark Roberts o Hirael wedi ei gyfethol yn Gynghorydd Dinas dros ward Hirael. Dywedodd Mr Roberts ei fod yn falch iawn o gael ei gyfethol a darllenodd a llofnododd y datganiad derbyn swydd. Yna cymerodd ei sedd fel Cynghorydd.

### **77/22 DERBYN ANERCHIAD GAN Y CYFARWYDDWR DINESIG**

*Adroddiad wedi ei ddosbarthu cyn y cyfarfod*

Yn ogystal â'r adroddiad, ategodd Cyfarwyddwr y Ddinas ei ddiolch i'r Cynghorwyr hynny a oedd wedi helpu i wneud y digwyddiad Cracyr Nadolig yn llwyddiant mawr. Tynnwyd sylw at y ffaith fod problemau wedi bod gyda diffyg manau parcio ar gyfer yr anabl; a diffyg toiledau cyhoeddus. Trafodwyd atebion posibl gan gynnwys gofyn i'r Brifysgol agor ei meysydd parcio ar gyfer digwyddiadau fel hyn.

**Penderfynwyd :** bod Cyfarwyddwr y Ddinas yn cysylltu â Phennaeth Ystadau Prifysgol Bangor. Ychwanegodd Cyfarwyddwr y Ddinas ei fod eisoes wedi trefnu cyfarfod ag Is-Ganghellor y Brifysgol ym mis Ionawr.

**Penderfynwyd** hefyd: dechrau trafodaethau â Chyngor Gwynedd am Drosglwyddo Asedau y toiledau cyhoeddus ym Mangor. Ychwanegu fel eitem ar yr agenda yn y Flwyddyn Newydd.

### **77/22 COFNODION**

|      |   |
|------|---|
| i )  | Cyfarfod y Cyngor - 5 Medi <sup>2022</sup><br>Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir            |
| ii)  | Asedau, adnoddau a Phrosiectau 5 Medi <sup>2022</sup><br>Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir |
| iii) | Cyfarfod y Cyngor - 3ydd Hydref <sup>2022</sup><br>Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir       |
| iv)  |   |

|     |  |
|-----|--|
|     | Asedau, Adnoddau a Phrosiectau – 3ydd Hydref <sup>2022</sup><br>Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir |
| (v) | Cyfarfod y Cyngor - 14 Tachwedd <sup>2022</sup><br>Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir              |

## TUDALEN 19

### 78/22 TRAFOD DYFODOL SAFLE COLEG MENAI

Trafodwyd dyfodol safle Coleg Llandrillo Menai ar Ffordd Ffriddoedd gan bod y gweithgareddau ar fin symud i Barc Menai. Roedd Cyngor y Ddinas yn cydnabod ac yn croesawu'r ffaith y byddai'r safle yn cael ei ddefnyddio i godi tai ychwanegol. Eto i gyd, codwyd pryderon am hen Ysgol Friars, y caeau chwarae a'r ganolfan chwaraeon.

Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- dylid gwarchod a gwella unrhyw fannau gwyrdd;
- un o'r anghenion mwyaf yn yr ardal yw canolfan gymunedol;
- roedd nifer o bosibiliadau i safle Friars, fodd bynnag, roedd ei statws fel adeilad rhestredig yn golygu bod rhai o'r rhain yn gyfyngedig;
- Yn ddelfrydol cadw'r Neuadd Chwaraeon at ddefnydd y gymuned;

Cytunwyd bod angen i Gyngor y Ddinas fod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch defnydd y safle o'r cychwyn, gyda'r holl randdeiliaid,

**Penderfynwyd** : Cyngor Dinas Bangor, ynghyd â Chyngor Gwynedd, i gomisiynu adroddiad proffesiynol ar ddefnydd y safle yn datgan yr holl opsiynau. Cyfarwyddwr y Ddinas i drafod gyda Grŵp Llandrillo Menai a Chyngor Gwynedd.

### 79/22 CAIS AM GYMORTH GAN FENTER CELFYDDYDAU BANGOR

Adroddwyd fod cais am gymorth ariannol wedi dod gan Fenter Celfyddydau Bangor.

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Ddinas yr aelodau yn ôl i gyfarfod 19/7/21 lle cafwyd cyflwyniad gan Grŵp Menter Celfyddydau Bangor, ac yn sgil hwn roedd y Cyngor wedi cytuno i roi arian cyfatebol i brosiect cymunedol 'Lleu'. Fel rhan o'r prosiect hwn, roedd Gorymdaith Lusernau wedi'i threfnu ar 21 Rhagfyr.

**Penderfynwyd** : cyfrannu £4,000 at y digwyddiad

**Penderfynwyd** hefyd: atgoffa sefydliadau y dylent ddilyn y protocol ar gyfer ceisio rhoddion o hyn ymlaen, a darparu rhestr lawn o gostau a threfniadau ymhell ymlaen llaw.

### 80/22 CYMERADWYO'R RHESTR TALIADAU

Cymeradwywyd y rhestr daliadau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod incwm o £1,800 wedi'i gynhyrchu drwy'r digwyddiad Cracyr Nadolig o daliadau gan y stondinwyr a'r Ffair. Awgrymodd ddosbarthu'r arian hwn i elusennau lleol fel arwydd o ewyllys da dros y Nadolig.

**Penderfynwyd** : rhannu'r arian yn bedair rhodd o £450 i fanciau bwyd Bangor, sef:

Banc Bwyd Coed Mawr

Banc Byd y Gadeirlan

Bwyd i Bawb Bangor Food Share

Canolfan Affricanaidd a Charibiaidd Bangor

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 p.m**  
CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CYFARWYDDWR DINAS